

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>06/09/22</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23 – Perfformiad Ariannol</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Adrodd ar Gyllideb Refeniw 2022/23 - y sefyllfa a oedd ohoni ar ddiwedd Mehefin 2022 a rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol</b>
	<b>Er penderfyniad</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael</b>

### 1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad ariannol pob Gwasanaeth mewn perthynas â Chyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23. Mae cyllidebau pob gwasanaeth yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu amseriad yr incwm a'r gwariant, yn ogystal ag asesu'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn a sicrhau bod camau cyweiriol yn cael eu cymryd lle bo hynny'n bosibl ac fel y bo'n briodol.

Ar yr adeg gynnar hon yn y flwyddyn ariannol, rhagwelir mai'r sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn fydd tanwariant bach o £71,000. Serch hynny, hyd yn oed mor gynnar â hyn yn y flwyddyn ariannol, mae nifer o heriau ariannol eisoes yn dechrau dod i'r amlwg ar draws y Cyngor:

- Mae'r sefyllfa **yn** ystyried yr amrywiol bwysau sy'n dod i'r amlwg o ran cost gan gynnwys lefelau chwyddiant uwch ac effeithiau COVID. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau sydd gennym i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn eleni yn lliniaru'r agweddau hyn dros dro.
- Mae'r sefyllfa hefyd yn **cynnig** datrysiad parhaus am gyllid y byddai modd ei ddefnyddio yn lle'r cyllid o £1.0 miliwn a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y dydd wrth bennu Cyllideb 2022/23. Bydd yr Aelodau yn cofio bod hyn wedi'i gynnwys ym mhroses pennu'r Gyllideb er mwyn lleihau'r pwysau ar drethdalwyr drwy gyfyngu'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor 2022/23 i 2.5%.
- **Nid yw'r** sefyllfa yn ystyried y cyhoeddiadau a wnaed yn ddiweddar iawn ynglŷn â'r dyfarniadau cyflog i Athrawon a phob aelod arall o staff Llywodraeth Leol. Byddai'r dyfarniadau cyflog fel y'i cynigir (noder nad ydynt hyd yma yn barod i gael eu derbyn na'u gweithredu) yn costio tua £3 miliwn yn ychwanegol a hynny ar ben y symiau gwreiddiol sydd wedi'u cynnwys yng Nghyllideb 2022/23. Mae effaith hyn yn sylweddol iawn ac yn amlwg, bydd goblygiadau yn ystod y flwyddyn ac wrth bennu cyllideb 2023/24.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n rhy gynnar i wybod a fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan fod lefel y dyfarniadau cyflog a gynigir yn her i'r sector Llywodraeth Leol ar draws y Deyrnas Unedig. Er gwybodaeth, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi y bydd cyllid cylchol ychwanegol o £140m (tua 1.2%) yn cael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol yn yr Alban.

Bydd angen ystyried y dyfarniadau cyflog ymhellach ond mae'n debygol y bydd angen cyflwyno mesurau lliniaru dros dro yn ystod y flwyddyn, cyn gwneud penderfyniadau mwy parhaol fel rhan o broses Cyllideb 2023/24. Gall fod yn beth amser eto cyn y bydd y dyfarniadau cyflog yn barod i'w rhoi ar waith. Hefyd, mae'n ddigon posib y gallai'r sefyllfa ddwysáu hyd yn oed ymhellach pan fydd y trafodaethau yn symud ymlaen i ddyfarniadau cyflog 2023/24.

Wrth i chwyddiant gynyddu, effeithiau COVID ar wasanaethau barhau a'r dyfarniadau cyflog gael eu cyflwyno maes o law, mae'r heriau ariannol presennol a'r heriau at y dyfodol yn rhai sylweddol. Mae'r pwysau o ran costau wrth ddechrau ar y broses o bennu Cyllideb 2023/24 yn debygol o fod cynddrwg os nad yn waeth na'r hyn yr ydym wedi'i weld ar unrhyw adeg o'r blaen yn ystod y ddegawd o gyni. Heb gyllid craidd ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, bydd Ceredigion a phob corff arall yn y sector Llywodraeth Leol yn wynebu diffygion ariannu sylweddol.

## **2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB - CRYNODEB**

Y brif ystyriaeth yn y lle cyntaf yw sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen o ran y £1.0m gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd yn ystod y broses o bennu cyllideb 2022/23. Roedd yr hyn a wnaethpwyd ym mis Mawrth 2022 yn gwbl briodol ac amserol gan ei fod yn golygu mai cynnydd o 2.5% a gafwyd yn Nhrefn y Cyngor yn hytrach na'r cynnydd posib o 5%. Roedd hyn hefyd yn cydnabod effaith yr argyfwng Costau Byw ar drigolion Ceredigion. Fodd bynnag, gan ein bod yn wynebu heriau ariannol digynsail, mae bellach yn flaenoriaeth ystyried atebion ynghylch y ffigwr hwn o £1m.

Ar ôl adolygu'r sefyllfa o ran Alldro Refeniw 2021/22 ac ystyried y rhagolygon ynghylch cyfraddau llog ar gyfer y dyfodol, mae yna ddau ateb:

i) **Gwarged Treth y Cyngor (o dan y pennawd Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a'r Cronfeydd wrth Gefn)**

Mae cyfraddau casglu Treth y Cyngor (yn ystod y flwyddyn ac yn gyffredinol) wedi parhau i ddal eu tir yn rhesymol dda ar ôl y dirywiad a gafwyd yn sgil COVID yn 2020/21 ac mae gwarged wedi'i sicrhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys 2021/22:

	Cyfradd gasglu a dybir	Cyfradd gasglu gwirioneddol yn ystod y flwyddyn	Gwarged Craidd a sicrhawyd £'000
2018/19	98.5%	97.2%	269
2019/20	98.5%	97.4%	653
2020/21	98.5%	96.7%	376
2021/22	97.5%	97.2%	985

Byddai'n rhesymol tybio y bydd modd sicrhau gwarged parhaus o £700,000 y flwyddyn. Un risg i'w hystyried a allai cael effaith andwyol ar y cyfraddau casglu yw'r argyfwng Costau Byw. Er hynny, mae'r cyfraddau casglu yn dal eu tir hyd yma yn 2022/23. Bydd yn briodol adolygu'r sefyllfa a ragwelir a'r hyn a dybir o ran y cyfraddau casglu fel rhan o'r broses o bennu Cyllideb 2023/24 a bydd angen parhau i fonitro'r sefyllfa.

ii) Cyllidebau'r Trysorlys (o dan y pennawd Cyllid a Chaffael)

Mae'r balansau ar gyfer buddsoddi yn uwch nag yr oeddent cyn COVID ac mae hyn yn rhannol am fod mantolen y Cyngor wedi ei chryfhau. Hefyd, mae cyfradd sylfaenol Banc Lloegr wedi dechrau cynyddu ers mis Rhagfyr 2021, ar ôl bod ar ffigwr hanesyddol isel o 0.1% am gyhyd. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn nodi y gallai'r cyfraddau llog gyrraedd uchafbwynt o oddeutu 2.75% tua mis Mawrth 2023. Golyga hyn y bydd cyfuniad o falansau uwch a chyfraddau llog uwch yn creu incwm buddsoddi ychwanegol. Mae felly yn ddoeth ac yn rhesymol tybio y bydd yna £300,000 i gynorthwyo â'r ffigwr o £1m. Dylai fod modd sicrhau incwm ychwanegol y tu hwnt i'r lefel hon a chaiff hwn ei ddefnyddio i gynorthwyo â'r sefyllfa ehangach yn ystod y flwyddyn ac yn ystod y broses o bennu Cyllideb 2023/24.

Byddai hyn yn golygu trosglwyddo cyllidebau rhwng gwasanaethau fel a ganlyn:

Pennawd yn y gyllideb	Newid i'r hyn a nodir yn Chwarter 2 £'000	Esboniad
Cyllid a Chaffael	-300	Cynnydd yn y targed o ran incwm buddsoddi
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a'r Cronfeydd wrth Gefn	300	Trosglwyddwyd o'r pennawd Cyllid a Chaffael i wneud yn iawn am ran o'r £1.0m a ddefnyddiwyd o gyllid Lywodraeth Cymru

Nid yw'r trosglwyddiad hwn yn golygu y bydd amrywiad yn lefel na natur y gwasanaeth a ddarperir.

Trwy fabwysiadu'r tybiaethau clir hyn yn awr, mae'n caniatáu i'r union gyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru gael ei ryddhau a chael ei ddefnyddio ar sail untro at ddibenion eraill. Ar ôl ailagor Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 yn hwyr iawn yn y dydd, £1.435m oedd y swm terfynol a gafwyd o gyllid ychwanegol y Grant Cynnal

Refeniw. Cafodd y swm hwn ei osod mewn cronfa benodol a glustnodwyd ar gyfer Pwysau Costau a Chwyddiant fel rhan o sefyllfa alldro 2021/22. Mae £239,000 o'r swm hwn wedi'i ddynodi'n benodol ar gyfer Gofal Cartref yn dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'r sector hwn. Byddai hyn wedyn yn gadael £1.2m ar gyfer Pwysau Costau Chwyddiant yn hytrach na bod ei angen ar gyfer y gyllideb graidd.

Eisoes yn Chwarter 1, rydym yn gweld mwy o bwysau ar gostau oherwydd chwyddiant felly mae'n amserol adolygu'r rhain a lliniaru'r sefyllfa gan ddefnyddio'r £1.2m sydd ar gael yn y gronfa Pwysau Costau a Chwyddiant. Hyd yma, mae'r galwadau dros dro ar y gronfa hon yn debygol o fod oddeutu £550,000 ac ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys costau tanwydd fflyd y Cyngor, cydrannau cerbydau a thrafnidiaeth i ddysgwyr. Mae'r marchnadoedd ynni hefyd yn parhau'n anwadal ac o dan bwysau ac mae'r sefyllfa'n un ddigynsail. Golyga hyn nad yw'r effaith ar gcontractau ynni corfforaethol a ddaw i rym ym mis Hydref wedi'u cadarnhau'n llawn, ond mae bron yn bendant o fod yn uwch na'r ffigur o 20% a dybiwyd adeg y broses o bennu'r gyllideb. Mae posibilrwydd y gallai fod angen £750,000 ychwanegol i fynd i'r afael â'r pwysau o ran y gost hon yn ystod y flwyddyn.

O ran y dyfarniadau cyflog:

- Athrawon – mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ac maent wedi dechrau cyfnod o ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid. Cynigir cynnydd o 5% o fis Medi 2022 ymlaen a chynnydd arall o 3.5% o fis Medi 2023 ymlaen (yn amodol ar adolygiad). Bydd cyflog cychwynnol athrawon yn £30,000 o fis Medi 2023 ymlaen.
- Staff Eraill Llywodraeth Leol (gan gynnwys Prif Swyddogion) – Cynnig y Cyflogwyr Cenedlaethol yw cynnydd safonol o £1,925 ar gyfer pob gradd o Ebrill 2022 ymlaen. Mae canran y cynnydd yn wahanol ar gyfer pob gradd. Y ganran uchaf yw 10.5% a hynny ar y radd isaf. Golyga hyn mai £10.50 fyddai'r isafswm cyfradd fesul awr. Bydd yr Undebau yn awr yn ymgynghori â'u haelodau ynglŷn â'r cynnig hwn.

Roedd Cyllideb 2022/23 yn darparu ar gyfer cynnydd o rhwng 3.25% a 4.0% mewn cyflogau – yr hyn sy'n cyfateb i oddeutu £3.1m. Fodd bynnag, os bydd y dyfarniadau cyflog a nodir uchod yn cael eu gweithredu'n llawn, gallai'r gost ddyblu a gallai'r swm fod oddeutu £6.4m. Bydd yr effaith hon yn un sylweddol iawn ac yn amlwg, bydd goblygiadau mawr yn ystod y flwyddyn ac yn ystod y broses o bennu cyllideb 2023/24.

### **3. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – SEFYLLFA'R GWASANAETHAU**

Cafwyd nifer fechan o drosglwyddiadau rhwng cyllidebau'r gwasanaethau i adlewyrchu newidiadau gweithredol rhwng gwasanaethau, heb wneud ddim newid sylfaenol i'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd y prif drosglwyddiad yn ymwneud â dyrannu £155,000 sef y targed incwm o ran ffioedd a chostau i'r gwasanaethau unigol perthnasol.

Yn ogystal ag effaith y lefelau uwch o chwyddiant, mae'r gwasanaethau hefyd yn wynebu pwysau eraill. Yn benodol, mae nifer y Lleoliadau Gofal Cymdeithasol y mae eu hangen yn y meysydd Anabledau Dysgu, Iechyd Meddwl a Lleoliadau Plant y tu Allan i'r Sir wedi cynyddu. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae cynnydd bach iawn yn y niferoedd yn cael effaith ariannol sylweddol gan fod lleoliadau unigol yn medru

costio mwy na £1,500 yr wythnos. Mae galwadau mawr felly ar y gronfa Cydraddoli Lleoliadau sy'n cynnwys £1.0m, a roddwyd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn a rhagwelir bellach y bydd y gronfa fwy neu lai yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn.

Gan fod cyfraddau llog y banc yn cynyddu, mae cyllideb yr incwm buddsoddi o ran y pennawd Cyllid a Chaffael ar ei hennill, ac mae hyn yn cynorthwyo â'r sefyllfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn hefyd yn ein cynorthwyo ymhellach o ran Cyllideb 2023/24, cyhyd â bod cyfraddau llog yn dilyn yr un trywydd ac yn parhau i gyd-fynd â disgwyliadau'r farchnad ar hyn o bryd.

Mae effaith barhaus COVID yn parhau i'w gweld ar nifer o feysydd ac felly mae'r gyllideb COVID corfforaethol yn lliniaru dros dro y gwariant a'r lefelau is o incwm ar gyfer eleni. Yn ystod y broses o bennu Cyllideb 22/23, neilltuwyd cyllideb o £2m ar gyfer hyn, ac ariannwyd £1.25m o'r ffigwr hwn o'r cronfeydd wrth gefn. Ymhlith y prif feysydd y mae hyn yn dal i effeithio arnynt y mae Athrawon Cyflenwi mewn Ysgolion, newidiadau dros dro o ran y Priffyrdd a'n Cartrefi Gofal. Hefyd, mae'r gwasanaethau Gwastraff Masnachol a Chanolfannau Lles yn wynebu llai o incwm.

Nid yw Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn sgil COVID ar gael bellach, ond mae'r Awdurdodau Lleol yn dal i gyflwyno hawliadau misol ar gyfer taliadau hunanynysu, ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer Cyflogwyr Gweithwyr Gofal a chost Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y gwyliau.

Mae dadansoddiad pellach o sefyllfa'r Gyllideb Reoladwy fesul gwasanaeth i'w weld dros y dudalen:

Gwasanaeth	Y Gyllideb ddiweddaraf £'000	Cyllideb hyd at Fehefin 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Fehefin 2022 £'000	Amrywiad hyd at Fehefin 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant £'000	Sylwadau
Cyswllt Cwsmeriaid	6,151	1,014	944	70		-	Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.
Gwasanaethau Democrataidd	4,391	1,097	1,032	65		20	Ar yr adeg hon yn y flwyddyn, ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n achosi problem.
Economi ac Adfywio	3,653	933	731	202		-	Er bod y gyllideb Twf a Menter yn elwa ar hyn o bryd o swyddi gwag, bydd pwysau eraill yn dod i'r amlwg pan fydd y swyddi hyn wedi'u llenwi. Mae'r heriau'n cynnwys diffygion o ran incwm yn y Gwasanaeth Cynllunio a'r galw ar gyfleusterau cyhoeddus a chost deunyddiau. Nid yw'r ffigurau yn ystyried y ffaith bod prisiau ynni yn cynyddu'n gyflymach na'r lefelau uchel o chwyddiant sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn y gyllideb.
Cyllid a Chaffael	19,100	9,256	8,794	462		770	Rhagwelir tanwariant o £770,000 ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd y cynnydd yn y cyfraddau llog a fydd yn creu incwm buddsoddi ychwanegol o £600,000 ynghyd â £170,000 yn sgil swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau.
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,133	4,129	4,061	68		(200)	Mae'r gwasanaeth eisoes yn wynebu amrywiol bwysau o ran cost yn gynnar yn y flwyddyn, O'r herwydd, rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gorwario £200,000. Daw hyn ar ôl ystyried pwysau chwyddiant ar danwydd a chydannau cerbydau sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn (amcangyfrif o £250,000 yn y lle cyntaf) a'r tebygolrwydd cryf y bydd angen dilyn yr un trywydd o ran Trafnidiaeth i Ddysgwyr (£300,000), ynghyd â defnyddio'r cyllid COVID corfforaethol i ariannu'r diffygion dros dro o ran incwm ym maes Gwastraff Masnachol (£185,000).
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,569	381	368	13		(45)	Mae cynnydd mewn costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol yn dechrau peri pryder i'r Gyllideb Gyfreithiol. Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro'n agos. Efallai y bydd angen defnyddio cronfeydd wrth gefn a rhoi ystyriaeth bellach i hyn wrth bennu Cyllideb 23/24.
Pobl a Threfniadaeth	2,165	325	303	22		-	Ar yr adeg hon yn y flwyddyn, ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n achosi problem.
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,353	589	518	71		40	Ar yr adeg hon yn y flwyddyn, ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n achosi problem..

Gwasanaeth	Y Gyllideb ddiweddaraf £'000	Cyllideb hyd at Fehefin 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Fehefin 2022 £'000	Amrywiant hyd at Fehefin 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/ (gor) wariant £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/ (gor) wariant £'000	Sylwadau
<u>Gwasanaethau Gydol Oes y Pyrth</u>							
Porth Cymorth Cynnar	4,401	1,400	1,451	(51)	(100)		Nid yw lefelau incwm y Canolfannau Lles wedi dychwelyd hyd yma i'r hyn yr oeddent cyn COVID. Hefyd, mae posibilrwydd y bydd cost trafniadaeth disgyblion yn cynyddu o fis Medi ymlaen. Serch hynny, byddai'r rhain yn cael eu lliniaru dros dro gan y cyllid COVID corfforaethol / cronfeydd wrth gefn. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £100,000 ar draws y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
Porth Cynnal	28,648	7,641	7,643	(2)	(238)		Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y bydd yn gorwario, a hynny ar ôl derbyn £516,000 o'r cronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau allanol o ran Lleoliadau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae'r gwasanaeth yn hynod anwadal ac mae'r rhagolygon yn seiliedig ar ymrwymadau yr ydym yn gwybod amdanynt hyd yma. Hefyd, mae nifer sylweddol o amrywiannau o fewn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd, ceir heriau gweithredol mewn nifer o feysydd, yn benodol o ran staffio a llwyth achosion.
Porth Gofal	13,607	5,679	5,671	8	24		Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld tanwariant o £24,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn hynod anwadal ac mae'r rhagolygon hyn yn seiliedig ar ymrwymadau yr ydym yn gwybod amdanynt hyd yma. Ar hyn o bryd, ceir heriau gweithredol mewn nifer o feysydd gan gynnwys Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref.
<b>Gwasanaethau Gydol Oes y Pyrth</b>	<b>46,656</b>	14,720	14,765	(45)		<b>(314)</b>	
Ysgolion a Diwylliant	50,931	48,376	48,153	223		<b>100</b>	Mae'r gwasanaeth hwn wedi elwa o swyddi gwag yn ystod yr haf. Bydd y rhan fwyaf o'r swyddi hyn wedi'u llanw erbyn yr hydref. Mae'r gwasanaeth yn wynebu'r posibilrwydd o gynydd yng nghost y drafnidiaeth i ddisgyblion o fis Medi ymlaen. Er gwaethaf hyn, disgwylir y bydd y gwasanaeth yn cadw o fewn ei gyllideb am y flwyddyn.

Grŵp Arweiniol	6,986	925	1,220	(295)	-	Y prif bryder yw'r pwysau sylweddol yn y gyllideb o ran cost y Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £450,000 ar gyfer y flwyddyn. Ymdrinnir â hyn yn ystod y flwyddyn drwy ddefnyddio'r gronfa Cydraddoli Lleoliadau, ond mae'r duedd o ran costau cynyddol yn peri pryder.
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd wrth gefn	3,755	1,056	1,054	2	(300)	Mae angen canfod ateb parhaus yn lle'r £1m a ddefnyddiwyd o'r cronfeydd wrth gefn i ostwng Treth y Cyngor 2022/23. Mae datrysiad bellach wedi'i ganfod. Caiff y symiau yr ydym ni'n tybio y byddwn ni'n eu casglu o ran Treth y Cyngor a'r llog a gawn ar falansau Rheoli'r Trysorlys eu defnyddio.
<b>Cyfanswm y gyllideb reoladwy</b>	<b>165,843</b>	<b>82,801</b>	<b>81,943</b>	<b>858</b>	<b>71</b>	

#### 4. CYNLLUNIAU ERAILL LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Leol yw'r partner y mae Llywodraeth Cymru yn dal i'w ffafrio ar gyfer gweithredu nifer o gynlluniau cenedlaethol, boed y rheiny'n gysylltiedig â COVID, yr argyfwng Costau Byw neu faterion eraill. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rhain yn llawn ac ymhlith y rhai mwyaf yn 2022/23 y mae'r canlynol:

Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) - Rhyddhad Ardrethi Busnes o 50% ar gyfer y sectorau Hamdden, Manwerthu a Lletygarwch	Rhodddwyd oddeutu £2.3m o ryddhad Ardrethi i fusnesau cymwys yn 2022/23
Cynllun Cymorth Hunanyngysu	Taliadau cronol o £1.128m – Cynllun wedi cau ar 31/07/22
Cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer Cyflogwyr Gweithwyr Gofal	Taliadau cronol o £75,000 hyd yma – bydd y cynllun yn cau ar 31/08/22
Taliad o £1,498 i Ofalwyr (Rownd 3)	Taliadau cronol o £2.395m – Cynllun wedi'i gau.
Taliad cymorth o £500 i Ofalwyr Di-dâl	Talwyd £334,000 o arian grant. Caeodd y cynllun yn y lle cyntaf ar 15/07/22 ond ers hynny, mae wedi ailagor ar gyfer y cyfnod rhwng 15/08/22 a 02/09/22.
£150 y Cynllun Costau Byw	Taliadau cronol o £2.9m hyd yma. Bydd y cynllun dewisol yn dilyn.
Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf	Bydd cynllun newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn hydref 2022

Yn ogystal â'r rhain, mae amrywiol grantiau / cynlluniau sy'n gysylltiedig â COVID yr ydym yn parhau i'w cefnogi ac yn parhau i ddarparu adnoddau ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys Profi, Olrhain a Diogelu (Olrhain Cysylltiadau), Canolfannau Brechu a'r gronfa ar gyfer y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau. Hefyd, mae cryn gefnogaeth a chymorth wedi'u rhoi i'r amrywiol gynlluniau sydd ar waith i gefnogi'r ffoaduriaid o Wcráin sy'n dod i'r sir.

#### 5. CASGLIAD

Os rhoddw'n COVID i'r naill ochr, mae'n anarferol ar yr adeg gynnar hon o'r flwyddyn ariannol i'r Cyngor fod yn wynebu heriau ariannol mor ddigynsail. Er efallai y byddai rhywun yn tybio y byddai'r problemau o ran darparu gwasanaethau a'r heriau gweithredol yn lleihau ac y byddai pethau yn dychwelyd i 'normal' wrth i ni adael cyfnod y COVID y tu ôl i ni, mae hyn mewn gwirionedd ymhell o'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'r sector preifat hefyd yn wynebu cyfnod anodd iawn mewn sawl maes ac felly nid yw hyn yn unigryw i'r sector cyhoeddus.

Mae maint ac effaith yr hyn a oedd yn cael ei ddarogan am y sefyllfa ariannol y byddem ni'n ei hwynebu wedi dwysáu'n fawr. Mae gan y Cyngor fantolen gref ac mae'n ariannol gydnerth ond mae pob arwydd yn dangos tuedd y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn ar i lawr, gan fod angen lliniaru dros dro y sefyllfa o lawer cyfeiriad yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, oni bai y bydd cyllid grant untro ar gael wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Hefyd, mae achos clir dros dderbyn lefelau uwch o gyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Os na fydd y cyllid hwn ar gael, bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn fel rhan o'r broses o bennu Cyllideb 2023/24.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo

**Os naddo, nodwch pam** Adroddiad er gwybodaeth yw hwn

<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb:</b>	
	<b>Hirdymor:</b>	Ddim yn berthnasol
	<b>Integreiddio:</b>	Ddim yn berthnasol
	<b>Cydweithio:</b>	Ddim yn berthnasol
	<b>Cynnwys:</b>	Ddim yn berthnasol
	<b>Atal:</b>	Ddim yn berthnasol

**Argymhellion:**

1. Cymeradwyo'r newid arfaethedig yn y tybiaethau a geir yn y Gyllideb o ran y defnydd a wneir o'r cyllid gwreiddiol o £1m a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Adran 2i) a ii) yr adroddiad.
2. Nodi y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith ariannol y Dyfarniadau Cyflog yn ystod y flwyddyn.
3. Nodi'r angen i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei lobïo'n weithredol a'i bod yn gwbl ymwybodol o'r heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.
4. Nodi'r sefyllfa refeniw gyffredinol a amlinellir yn yr adroddiad.

**Rhesymau dros y penderfyniad:** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sefyllfa ariannol fantoledig ym flwyddyn ariannol 2022/23.

**Trosolwg a Chraffu:** Ystyriwyd yn ystod y broses o osod y Gyllideb

**Fframwaith Polisi:** Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Blaenoriaethau Corfforaethol:** Mae'r Gyllideb yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor

**Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:** Nodwyd hwy yn yr adroddiad

**Goblygiadau Cyfreithiol:** Rhan o rôl a chyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 wrth weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972

<b>Goblygiadau o ran Staff:</b>	Mae'r cynnydd mawr yn y dyfarniadau cyflog yn peri risg y bydd angen adolygu blaenoriaethau'r Cyngor a'r Gwasanaethau, yn enwedig os na fydd cyllid ychwanegol yn dod i law oddi wrth Lywodraeth Cymru.
<b>Goblygiadau o ran eiddo / asedau:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Risgiau:</b>	Ceir risg na fydd digon o arian os bydd yna orwario mawr. Mae'n debygol iawn yn awr y bydd y broses o bennu Cyllideb 2023/24 yn hynod o heriol. Mae'r Cyngor eisoes yn ffurfiol wedi cynyddu sgôr y risg ariannol yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
<b>Papurau Cefndir:</b>	Cyllideb Refeniw 2022/23
<b>Atodiadau:</b>	<p>Atodiad A: Cyswllt Cwsmeriaid</p> <p>Atodiad B: Gwasanaethau Democrataidd</p> <p>Atodiad C: Economi ac Adfywio</p> <p>Atodiad D: Cyllid a Chaffael</p> <p>Atodiad E: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</p> <p>Atodiad F: Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu</p> <p>Atodiad G: Pobl a Threfniadaeth</p> <p>Atodiad H: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</p> <p>Atodiad I: Porth Cymorth Cynnar</p> <p>Atodiad J: Porth Cynnal</p> <p>Atodiad K: Porth Gofal</p> <p>Atodiad L: Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Atodiad M: Grŵp Arweiniol</p> <p>Atodiad N: Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd wrth Gefn</p>
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Steve Johnson (hyd at 31/08/22) Duncan Hall (o 01/09/22 ymlaen)
<b>Swyddogion Adrodd:</b>	Duncan Hall a Justin Davies
<b>Dyddiad:</b>	19/08/22

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2022 / Budget Forecast Report June 2022

Cyswllt Cwsmeriaid / Customer Contact

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Arwyn Morris

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

## Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23.

It is expected by the service to breakeven during the 2022/23 financial year.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2022 Budget to June 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Mehfein 2022 Actuals to June 2022 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2022 Variance to June 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U ) Level of risk (L, M or H)
TGCh / ICT	3,714	409	399	10	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Gwasanaethau Cwsmeriaid / Customer Services	1,365	341	310	31	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Gwasanaethau Cymunedol / Community Services	968	238	209	29	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	104	26	26	-	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>6,151</b>	<b>1,014</b>	<b>944</b>	<b>70</b>	<b>-</b>		

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2022 / Budget Forecast Report June 2022

Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Lowri Edwards

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

## Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn ni nodwyd unrhyw faes sy'n achosi problem.  
At this stage in the year there are no problem areas identified.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2022 Budget to June 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Mehfein 2022 Actuals to June 2022 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2022 Variance to June 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U ) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Democraidd / Democratic Services	1,971	492	438	54	20	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau / Corporate Service Support	2,005	501	493	8	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	415	104	101	3	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>4,391</b>	<b>1,097</b>	<b>1,032</b>	<b>65</b>	<b>20</b>		

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2022 / Budget Forecast Report June 2022

Economi ac Adfywio / Economy and Regeneration

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer: Russell Hughes-Pickering

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

## Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Er bod cyllideb Twf a Menter yn elwa o swyddi gwag ar hyn o bryd, wrth i'r swyddi hyn cael eu llenwi amlygir pwysau eraill o fewn y gwasanaeth. Mae'r heriau yn cynnwys diffyg incwm yn y Gwasanaeth Cynllunio, y galw ar gyfleusterau cyhoeddus a chostau deunyddiau. Nid yw'r ffigurau yn ffactori'r ffaith bod pris ynni yn codi tu hwnt i'r chwyddiant mawr sydd eisoes wedi'r rhoi yn y gyllideb.

Although the Growth & Enterprise budget is currently benefiting from vacant posts, as these posts are filled other pressures will become more obvious. The challenges include income shortfalls in the Planning Service and the demand on Public conveniences and the cost of materials. The figures do not take account of the fact that energy prices are rising faster than the higher levels of inflation already built into the budget.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth  Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf  Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2022  Budget to June 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Mehfein 2022  Actuals to June 2022 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2022  Variance to June 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg  Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U)  Level of risk (L, M or H)
Gwasanaethau Eiddo / Property Services	2,766	631	617	14	(150)	Collir incwm rhent yn y swyddfeydd. Mae cyfleusterau cyhoeddus yn brysurach nag arfer ac fel canlyniad yn defnyddio mwy o oriau staff a deunyddiau. Mae prisiau'r deunyddiau hyn hefyd wedi codi yn sylweddol.  Rental income is not being received for the offices. Public conveniences have been busier than normal and as a result have used more staff hours and materials. The price of these materials has also risen considerably.	C / M
Twf a Menter / Growth & Enterprise	635	195	4	191	150	Nid oes yr un maes yn peri problem ar hyn bryd o hyn. Mae'r rhagolygon yn adlewyrchu'r budd a geir o swyddi gwag.  There are no problem areas identified at present, the forecast reflects the benefit from vacant posts.	I / L
Gwasanaethau Cynllunio / Planning Services	189	91	85	6	-	Mae'r incwm a geir o'r ffoedd cynllunio ar hyn o bryd oddeutu £65,000 yn llai na'r gyllideb broffil ar gyfer Chwarter 1. Serch hynny, gwneir yn iawn am hyn yn rhannol drwy'r arbedion a ddaw o swyddi gwag. Mae rhai elfennau o'r gwaith cynllunio yn cael ei wneud yn allanol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol neu ddiffyg o ran incwm cynllunio yn cael eu hariannu gan gyllid wrth gefn.  Planning income is currently below the budget profile by c£65k for Q1, although this is partly being covered by vacant posts savings. Certain Planning work has also been outsourced. Any additional costs or Planning income shortfall will be covered by reserve funding.	U / H
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau / Service Management and Strategy	63	16	25	(9)	-	Mae hyn yn cynnwys ffactor swyddi gwag ar draws y gwasanaeth cyfan, sy'n cael ei ariannu gan y Gwasanaeth Twf a Menter.  This contains a vacancy factor for the whole service, which is being covered by the Growth & Enterprise service	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>3,653</b>	<b>933</b>	<b>731</b>	<b>202</b>	<b>-</b>		

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2022 / Budget Forecast Report June 2022

Cyllid a Chaffael / Finance and Procurement

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Duncan Hall

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

## Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Rhagwelir tanwariant o £770,000 ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd y cynnydd yn y gyfradd log a fydd yn creu incwm buddsoddi ychwanegol o £600,000 ynghyd â £170,000 yn sgil swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

An underspend of £770k is forecast to year end due to the increase in the interest rates which will generate a further £600k of investment income together with £170k for vacancies and additional funding from DWP.

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2022 Budget to June 2022 £'000	Gwir wariant hyd at Mehfein 2022 Actuals to June 2022 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2022 Variance to June 2022 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan(gor) wariant Year End Forecast under/ (over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (I, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael / Finance & Procurement Service	3,354	925	796	129	170	Mae'r tanwariant yn ymwneud â swyddi gwag a chyllid ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Underspends relating to staff vacancies and additional funding from DWP	I / L
Budd-daliadau Tai a Chynllun Cymorth Treth y Cyngor / Housing Benefits and Council Tax Support Scheme	6,287	6,287	6,145	142	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	C / M
Yswiriant, Terfynu a Chostau Corfforaethol Eraill / Insurance, Termination & Other Corporate Costs	1,746	993	953	40		Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Cyfrif Cyfalaf Corfforaethol / Corporate Capital Account	7,713	1,051	900	151	600	Oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog, mae llog ychwanegol yn deillio o'r buddsoddiadau. Bydd £300,000 yn cyfrannu tuag at sicrhau bod y swm untro ychwanegol o £1m a oedd wedi'i gynnwys yn y setliad yn medru cael ei adlewyrchu yn y gyllideb sylfaenol yn barhaus. Hefyd, bydd yna £300,000 arall a fydd yn cyfrannu at sefyllfa'r Cyngor yn gyffredinol. There is additional interest being generated on investments due to the increase in interest rates. £300k will contribute towards ensuring the £1m one off additional settlement can be reflected in the base budget ongoing. In addition there will be a further £300k which will contribute to the overall Council wide position.	I / L
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>19,100</b>	<b>9,256</b>	<b>8,794</b>	<b>462</b>	<b>770</b>		

## Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2022 / Budget Forecast Report June 2022

## Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol / Highways and Environmental Services

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Rhodri Llwyd

## 1. CRYNODEB / SUMMARY

## Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Mae'r gwasanaeth eisoes yn wynebu amrywiol bwysau o ran cost yn gynnar yn y flwyddyn. O'r herwydd, rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gorwario £200,000. Daw hyn ar ôl ystyried pwysau chwyddiant ar danwydd a chydrannau cerbydau sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn (amcangyfrif o £250,000 yn y lle cyntaf) a'r tebygolrwydd cryf y bydd angen dilyn yr un trywydd o ran Trafnidiaeth i Ddysgwyr (£300,000), ynghyd â defnyddio'r cyllid COVID corfforaethol i ariannu'r diffygion dros dro o ran incwm ym maes Gwastraff Masnachol (£185,000).

The service is already facing various cost pressures at this early stage of the year, leading to a projected overspend of £200k. This is after making allowance for inflationary pressures on Fuel & Vehicle Parts being funded from reserves (£250k early estimate) and the strong likelihood of needing to take the same approach on Learner transport (£300k), plus the use of corporate COVID funding to temporarily cover shortfalls in Trade Waste Income (£185k).

## 2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

